

Datganiad Cynghrais Polisi Bwyd Cymru: Bil Bwyd (Cymru)

Yn dilyn dadl a phleidlais yn y Senedd ddydd Mercher (Mai 24ain), methodd [Bil Bwyd \(Cymru\)](#) â symud ymlaen i Gyfnod 2. Mae hyn yn siomedig, yn enwedig o ystyried y gefnogaeth gref i Fil Bwyd yng Nghymru ar draws pleidiau gwleidyddol ac amyryw o randdeiliaid allweddol, ynghyd â'r awydd i weld deddfwriaeth a fyddai'n sicrhau newid cynhwysfawr, hirdymor i'n system fwyd, gan wneud polisi bwyd yn fwy effeithlon ac atebol.

Fodd bynnag, yn ystod cyfraniad y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i'r ddadl, ymrwymodd i:

- Cyhoeddi a diweddarau o bryd i'w gilydd ddogfen draws-bortffolio ar gyfer rhanddeiliaid a fyddai'n crynhoi ei ystod eang o bolisiau bwyd, a sut y maent yn cydgyssylltu ar draws meysydd polisi a'r nodau llesiant
- Ffurio fforwm traws-Llywodraethol dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog i sicrhau bod yr ymdrechion a wnânt o fewn y Llywodraeth yn cael eu harolygu'n briodol, gan ganiatáu ar gyfer cydgyssylltu gwell o ran polisiau a'r ffordd y maent yn cael eu cyfathrebu, gan adrodd yn ôl i'r Senedd.
- Edrych ar yr hyn y gellir ei ddatblygu o fforwm traws-Llywodraethol a "gweld beth allwn ni ei wneud mewn perthynas â strategaeth".

Yn ogystal, rhoddodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, sicrwydd i'r Senedd, hyd yn oed heb y Bil, y byddai'n adeiladu ar y momentwm yr oedd wedi'i greu, gan gydnabod ei fod yn haeddu sylw pellach gan y Llywodraeth, yn ogystal â'r llu o wahanol randdeiliaid yn ein systemau bwyd lleol a byd-eang.

Roeddem hefyd yn falch o nodi bod y Gweinidog yn cefnogi nodau eang y Bil, gan ddatgan sut y maent yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hefyd yn galonogol bod y Gweinidog wedi nodi y byddai'n mynd ar drywydd yr heriau ar draws systemau bwyd, gyda'r brys sydd angen, gan ddefnyddio nid yn unig y pwerau sydd ar gael i'r Llywodraeth, ond gan weithio gyda chyrrff cyhoeddus, cymunedau, cynhyrchwyr bwyd a busnesau eraill.

Roedd [Bil Bwyd \(Cymru\)](#) yn Fil Aelod o'r Senedd, a gyflwynwyd gan Peter Fox AS, ac yn ystod y 18 mis diwethaf, mae rhanddeiliaid o bob rhan o'r system fwyd wedi cefnogi datblygiad y Bil, gan gyflwyno tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r pwyllgorau perthnasol. Paratôdd FPAC hefyd [bapur briffio](#) ar gyfer Aelodau'r Senedd cyn y ddadl yn amlygu'r angen am ddeddfwriaeth.

Edrychwn ymlaen yn awr at barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill ar yr ymrwymadau a wnaed, gyda'r brys sydd ei angen, i helpu adeiladu ar y momentwm a gynhyrchwyd gan Fil Bwyd (Cymru), gan helpu i ddatblygu system fwyd decach, gynaliadwy ac economaidd hyfyw i Gymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethu'r dyfodol.

DIWEDD